Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 26 Mehefin yn y Drenewydd

2010.16 Addoli Agoriadol a Chroeso

Darllenwyd adrannau 20.68 a 25.01 o *Quaker faith and practice* yn ystod ein haddoli agoriadol. Mae'n bleser cael croesawu 31 o Gyfeillion yma heddiw, fel sydd wedi eu rhestru ar y daflen bresenoldeb. Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu cyfarfodydd ardal i fod yn bresennol:

- Gogledd Cymru: Catherine James a Dorothy Needham
- De Cymru: Jane Harries

Nid yw'r cyfarfodydd ardal eraill yng Nghymru wedi penodi Cyfeillion i fod yn bresennol ar yr achlysur hwn ond mae'r canlynol wedi cytuno i adrodd yn ôl i'w cyfarfodydd ardal priodol:

- Canolbarth Cymru: Dorothy Bell
- Gororau'r De: Joyce Gee.

Penodwyd David Harries a Cynthia Rowland yn Henuriaid

2010.17 *Calon* a *The Friend*

Cytunodd Helen Porter i ysgrifennu adroddiad ar y cyfarfod hwn i *The Friend* ac i adrodd i *Calon*. Siaradodd Stevie Krayer, golygydd Calon, am ei chynlluniau ar gyfer y rhifynnau nesaf a fydd yn canolbwyntio ar blant, pobl ifainc ac addysg. Fel bob amser, mae hi'n hapus derbyn sylwadau a chyfraniadau, yn arbennig gan blant a phobl ifainc.

2010.18 Materion Ymestynnol

(i) **Yr Eisteddfod:**

Mae'r grŵp a benodwyd i gydgysylltu tystiolaeth y Crynwyr yn yr Eisteddfod eleni wedi adrodd yn ôl. Yn ogystal â chael presenoldeb y Crynwyr ym mhabell Cytûn, mae'r Babell Heddwch wedi cytuno i ddangos deunydd arddangos ynghyd â pheth deunydd printiedig. Mae'r trefniadau i babell Cytûn wedi newid eleni, felly yn hytrach na bod y Cyfeillion yn gofalu am ddiwrnod penodol, bydd gwahanol drefi yng nghyffiniau'r Maes yn gyfrifol am wahanol ddyddiau. Felly, bydd croeso mawr i Gyfeillion fynychu'r Babell a helpu i sicrhau presenoldeb y Crynwyr ar unrhyw ddiwrnod. Rydym yn edrych ymlaen at adroddiad ar ôl y digwyddiad, yn ein cyfarfod nesaf.

(ii) **Adnoddau gwaith ymestynnol**

Mae Catherine James yn adrodd mai dim ond un o'r gyfres bosteri newydd a oedd yn addas i'w gyfieithu yn y pen draw, ond mai poster dwyieithog fydd hwn. Bydd y posteri ar gyfer wythnos Gwaith Ymestynnol, sy'n cynnwys lluniau o Grynwyr unigol, hefyd yn cael eu cyfieithu. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo ar bosteri posibl eraill. Mae gwaith mewn llaw ar adolygu'r taflenni safonol.

(iii) Byrddau Arddangos

Mae Jules Montgomery wedi anfon ymlaen dewisiadau posibl ar gyfer stondinau ysgafn newydd. Rydym yn cytuno i ganiatáu cyllideb o hyd at £200 i'r swyddog gweinyddol brynu ystod o ddeunydd arddangos, i geisio diwallu anghenion amrywiol y Cyfeillion mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r arian hwn eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

(iv) Ffilm ar S4C.

Mae S4C wedi cysylltu â Catherine James ynglŷn â gwneud ffilm am Siwrneiau Ysbrydol dan y teitl *'Y Daith'***.** Mae wedi seilio ar lwybr y Crynwyr yng nghyffiniau Dolgellau. Bydd yn cynnwys Crynwyr ac eraill y mae eu siwrneiau ysbrydol wedi cynnwys dylanwadau o du'r Crynwyr.

2010.19 *Celebrating the Quaker Way*

Cysylltwyd ag Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree (YEJR) i awgrymu y gallai'r llyfr *Celebrating the Quaker Way* gael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Maent yn gofyn a fyddai'r Cyfeillion yng Nghymru'n croesawu hyn neu a fyddai'n well ganddynt awgrymu ffyrdd eraill o ddathlu Crynwriaeth yn hytrach nag addasu deunydd sydd ar gael eisoes.

Mae hyn yn gyfle cyffrous.

Rydym yn gwybod bod deunydd gwreiddiol yn y Gymraeg yn aml yn teimlo'n fwy newydd a ffres na deunydd sydd wedi'i gyfieithu. Nid ydym yn meddwl fod adnoddau ariannol gennym ar gyfer hyn; fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod angen trefnu rhywbeth beth bynnag a wneir.

Un awgrym yw bod grwpiau lleol yn gweithio arno.

Rydym yn gofyn i Gyfeillion fynd â'r syniadau hyn yn ôl i'w cyrddau lleol, gan eu gwyntyllu a'u profi, fel y gallwn ddychwelyd at y mater hwn yn ein cyfarfod nesaf gyda rhai cynigion mwy pendant i'w trafod ag YEJR.

2010.20 Cytûn a materion rhyng-eglwysig a rhyng-ffydd eraill

(i) Cytûn

Mae Catherine James, ein cynrychiolydd ar fwrdd Cytûn wedi adrodd. Y prif faterion o agendâu diweddar yw:

- **Cyllid**: mae eglwysi'n cwestiynu cost Cytûn. Efallai y bydd yn rhaid ailfeddwl yn radical yn y dyfodol agos am holl strwythur, diben a dyfodol y sefydliad.
- Mae Cytûn yn trafod **Corff Noddi Cenedlaethol i Gymru**;
- Mae'r **Datganiad Croeso ac Ymrwymiad Eciwmenaidd** yn bennaf ar gyfer unrhyw eglwys lle mai hi yw'r unig un mewn tref neu bentref, lle y gellir rhoi cymaint o groeso ag sy'n bosibl mewn amgylchedd anghyfarwydd i'r rheini o enwadau eraill.
- Bydd **Prosiect Cysylltiadau Hiliol Caerdydd** yn gysylltiedig â **Phwyllgor Rhyngwladol Cytûn**. Mae'r pwyllgor hwn yn gobeithio ymweld â Syria ym mis Medi.
- Mae Cymru'n gobeithio mai hi fydd y wlad **"Dinasyddion Lloches"** gyntaf.
- Bu pabell Cytûn yn **Eisteddfod yr Urdd** yn gweithio'n dda. Darparodd Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill far di-alcohol a byddant yn trefnu bar tebyg yn yr **Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynebwy.**

(ii) Cymorth Cristnogol

Rydym wedi derbyn gwahoddiad gan Gymorth Cristnogol (Cymru) i benodi cynrychiolydd i'w Bwyllgor. Mynychodd Lynn Moseley eu cyfarfod diwethaf ym mis Ebrill fel cynrychiolydd dros dro.

Roedd hi'n teimlo ei fod yn sefydliad gwerth chweil i Grynwyr fod yn rhan ohono. Rydym yn gofyn i'n pwyllgor enwebiadau ddod ag enw Cyfaill i'n cynrychioli. Mae ganddi rai adnoddau y gall cyrddau eu defnyddio.

(iii) Cyngor Rhyng-ffydd Cymru

Mynychodd Stevie Krayer ddigwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru ar Feithrin Cysylltiadau Cymunedol Da trwy waith rhyng-ffydd a chydraddoldebau, yn Adran Ddiwinyddiaeth, Astudiaethau Crefyddol ac Astudiaethau Islamaidd, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan 24.4.10.
Ceir adroddiad am y diwrnod ar www.interfaithwales.org. Cynrychiolir y Crynwyr ar y rhwydwaith trwy Cytûn.

2010.21 Cyflwyniad i'r prosiect Amgenach na Thrais?

Rhoddodd Jane Harries, o gwrdd Pen-y-bont ar Ogwr cyflwyniad byr i ni am y prosiect **Amgenach na Thrais (***Alternatives to Violence)* er mwyn i ni allu mynd â'r wybodaeth yn ôl i'n cyrddau a'r cymunedau lle'r ydym yn byw. Pa sgiliau sydd gennym i ddelio â gwrthdaro mewn ffyrdd cadarnhaol a chreadigol?
Y prif themâu yw cadarnhad, meithrin cymuned, cyfathrebu, dod i benderfyniadau, cydweithredu a datrys gwrthdaro a ddônt yn fwy amlwg yn sgil grym gweddnewidiol. Byddai hwyluswyr ar gael i ddatblygu rhagor o gyfleoedd hyfforddi yng Nghymru.

2010.22. Cydweithio â Woodbrooke ar swyddogaeth y Crynwyr a meithriniad ysbrydol

Ymhellach i Gofnod 2010.07, rydym wedi derbyn crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynnau ynglŷn â pha fath o hyfforddiant a hoffai'r Cyfeillion sy'n byw yng Nghymru er mwyn cefnogi swyddogaethau'r Crynwyr mewn cyfarfodydd.

Mae'r ymatebion hefyd yn cynnwys awgrymiadau am yr hyn y gall Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ei wneud i gefnogi'r rheini sy'n ymgymryd â thasgau penodol mewn cyrddau a chyfarfodydd ardal gan ddwysáu ein bywyd ysbrydol.

Rydym yn eiddgar i groesawu rhagor o ddigwyddiadau hyfforddi Woodbrooke i Gymru ac o'r farn y gallai Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, trwy weithredu fel corff galluogi a hwyluso, gynhyrchu rhaglen ddigwyddiadau amrywiol i ystyried ein ffydd fel Crynwyr a sut rydym yn ei harfer. Y nod fyddai cefnogi anghenion y Cyfeillion, yn arbennig yn ardal wledig gorllewin Cymru sydd ymhell o Birmingham. Mae posibilrwydd o ailddarganfod rhai o'r pethau sy'n ein clymu wrth ein gilydd fel Crynwyr, ein diwinyddiaeth hanesyddol: er enghraifft, beth yw ystyr cynulliad a'r drefn gyfiawn i ni? Gallai hyn fod yn arbennig o wir i ~~gyrddau/~~cyfarfodydd sydd wedi derbyn mewnlifiad o newydd-ddyfodiaid.

Rydym hefyd wedi clywed am y budd enfawr yn sgil mynychu digwyddiadau yn Woodbrooke, a bod yn rhan o amgylchedd addysg.

Mae'r set gyflawn o ymatebion wedi'u hanfon at y tiwtor yn Woodbrooke sy'n gyfrifol am Hyfforddiant Henaduriaeth a Goruchwyliaeth, Michael Eccles, a hefyd at y rheolwr rhaglenni allannol. Maent ill dau'n awyddus i hyrwyddo digwyddiadau Woodbrooke yng Nghymru ac maent wedi cynnig peth arweiniad ar bosibiliadau a chostau. Mae'n debygol y cynigir cyfres o ddigwyddiadau am gost ostyngol. Mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r economeg. Gallem fod yn fentrus ynglŷn â defnyddio adnoddau megis y gymynrodd sydd gennym, ar gyfer Woodbrooke ar y ffordd ac o bosib, i gefnogi'r rheini sydd am fynychu Woodbrooke. Hefyd byddai angen i ni farchnata'r gyfres a gellid cynnwys gwahoddiadau i gyfarfodydd ardal cyfagos.

Mae'n bwysig bod unrhyw ddigwyddiadau a drefnir trwy Woodbrooke yn cael eu hyrwyddo a'u cytuno gan gyfarfodydd ardal yng Nghymru. Rydym felly yn gofyn i gyfarfodydd ardal drafod a phrofi'r cynnig hwn cyn ein cyfarfod nesaf ar y 30ain o Hydref, fel y gallwn gynnig ymateb cydgysylltiedig, a rhaglen i wneud y gorau o'n holl adnoddau. Byddem hefyd yn croesawu adborth gan gyrddau lleol, yn arbennig De-orllewin a Gogledd-orllewin Cymru. Nid ydym wedi derbyn unrhyw ymatebion ganddynt hyd yn hyn.

Bydd y cyfarfod clercod cyfarfodydd ardal, sydd i'w gynnal yng nghanol mis Hydref, yn trafod yn fanylach sut y gallai'r cynnig gael ei roi ar waith. Byddwn yn dychwelyd at hyn yn ein cyfarfod nesaf.

2010.23 Adroddiad y Pwyllgor Trefniadau.

Mynychwyd yr Encil ar yr 17eg o Ebrill yn Aberystwyth, dan arweinyddiaeth Liz Roe, gan wyth Cyfaill ar hugain. Roedd yn ddiwrnod da ac roedd llawer o bobl yn bresennol.

Bydd y cyfarfod ar Hydref y 30ain yn Aberystwyth ar y thema '*Ysgogi Newid – a allwn gyrraedd y rhai nad ydynt yn agored i newid fel arfer?'*

Mae'r Pwyllgor Trefniadau yn dod â'r awgrymiadau canlynol am ddyddiadau a mannau cyfarfod yn 2011.

- **Chwefror 26: Llanelwedd**
- **Mehefin 25: Aberhonddu**
- **Hydref 22 neu 29: Llanidloes**

Nodwyd nad yw hanner tymor yn adeg gyfleus i rai Cyfeillion.

Mae testunau a themâu posibl yn cynnwys: Ymestyn Allan, Israel/Palesteina, Academi Heddwch Cymru. Rydym yn croesawu awgrymiadau pellach.

Byddwn yn dosbarthu'r awgrymiadau hyn i gyfarfodydd ardal i geisio osgoi dyddiadau sy'n gwrthdaro neu orgyffwrdd yn y ddarpariaeth i Gyfeillion. Rydym yn gofyn i'r clercod drafod y rhain pan fyddant yn cwrdd â chlercod cyfarfodydd ardal a chlercod ymddiriedolwyr 12 Hydref yn Nhŷ Cwrdd y Pales.

Byddwn yn cadarnhau dyddiadau a mannau cyfarfod yn ein cyfarfod ym mis Hydref.

2010.24 Cyfarfod Dioddefniannau – Defnyddio'n hadnoddau'n effeithiol

Cytunodd Ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar ymateb i'w anfon i'r ymholiadau am Flaenoriaeth g o *A Framework for Action* - Defnyddio ein Hadnoddau'n Effeithiol - gan y Cyfarfod Dioddefiadau. Seiliwyd yr ymateb ar yr ymatebion a anfonwyd gan gyfarfodydd ardal yng Nghymru. Rydym wedi derbyn yr ymateb hwn er gwybodaeth. Mae sawl awgrym y byddwn yn gweithio arno yn y blynyddoedd a ddaw, er enghraifft, gwefan ar y cyd.

2010.25 Cyngor Cynrychioladol *Quaker Life*

Rhwystrwyd Liz Butler rhag mynychu'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 19-21 Mawrth yn Woodbrooke. Cymerodd Dave Butler ei lle ar fyr rybudd ac mae wedi darparu adroddiad ysgrifenedig. Cafodd y profiad yn galonogol ac yn ddyrchafol.

2010.26 Adroddiadau gan Ymddiriedolwyr

Bu Ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n cyfarfod am y tro cyntaf 24 Mai, gyda Gethin Evans yn gynullydd. Maent wedi

- Trafod sut y gall yr ymddiriedolwyr ryddhau Cyfarfod llawn y Cyfeillion yng Nghymru rhag treulio gormod o amser ar fanylion gweinyddol
- Adolygu'r trefniadau cyflogi ar gyfer ein swyddog gweinyddol. Wedi cyflawni ei chontract tair-blynedd cychwynnol, rydym yn falch o glywed y bydd Jules Montgomery'n parhau â'i gwaith fel ein swyddog gweinyddol ar gontract blynyddol. Bydd hwn yn dibynnu ar gyllid parhaus gan gronfeydd canolog Cyfarfod Blynyddol Prydain.
- Awdurdodi gwariant ar gymorth technegol i'r wefan
- Trefnu ein cofrestru â'r Comisiwn Elusennau
- Fel a ofynnir gan y cyfarfod hwn, maent wedi cytuno ar ymateb i'r ymholiadau ynglŷn â Blaenoriaeth G – Defnyddio ein Hadnoddau'n Effeithiol o *'A Framework for Action'*
- Adolygu'r polisi cyllid ac yn fodlon ar sut y mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd
- Byddant yn adolygu ein polisi yswiriant
- Byddant yn cymeradwyo enw archwiliwr cyfrifon am y tair blynedd nesaf

2010.27 Enwebiadau a Phenodiadau

(i) **Penodiadau rhwng cyfarfodydd** : Penodwyd/rhyddhawyd y canlynol rhwng cyfarfodydd

- **Pwyllgor Trefniadau**: Jane Beaton (GC) wedi gofyn i gael ei rhyddhau o'r Pwyllgor Trefniadau. Trwy'r weithdrefn rhwng cyfarfodydd, mae Frances Voelcker (GC) wedi'i phenodi yn ei lle i wasanaethu tan 31.12. 2012
- **Ymddiriedolwraig**: Viv Streets (DC) i wasanaethu tan 31.12.2013

(ii) Penodiadau.

Mae ein pwyllgor enwebiadau wedi adrodd i ni. Maent yn dod â'r enwebiadau canlynol gerbron:
Clerc Ymddiriedolwyr Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru: Gethin Evans (hyd at 3.12.2011)
Cynrychiolydd ar Bwyllgor Cymorth Cristnogol: Lynn Moseley (hyd at 31.12.2013)
Cynrychiolydd i fynychu cyfarfod blynyddol Undeb yr Annibynwyr - i'w gynnal yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin 18 Gorffennaf 2010: (*i'w benodi rhwng cyfarfodydd os yn bosibl)*
Cynrychiolydd i fynychu cynhadledd ffydd ac ymarfer *Quaker Life* mis Tachwedd 19-21 2010: Catherine James

(iii) Cais am enwebiadau

Rydym yn nodi bod angen y penodiadau canlynol i wasanaethu o 1.1.2011 gan ofyn i'r Pwyllgor Enwebiadau ddod o hyd i Gyfeillion i wasanaethu.
Cyd-glerc (hyd at ddiwedd 2013)
Clerc cynorthwyol (hyd at ddiwedd 2011)
Ymddiriedolwr (hyd at ddiwedd 2013)
Pwyllgor Cyhoeddiadau – un lle gwag (hyd at ddiwedd 2013)
Pwyllgor Trefniadau (Canolbarth Cymru neu Dde Cymru) (hyd at ddiwedd 2013)
Archifydd (hyd at ddiwedd 2013)
Pwyllgor Materion Rhyngwladol Cytûn - (hyd at ddiwedd 2013)

Rydym yn cytuno y bydd yn fwy priodol yn y dyfodol i gyfarfodydd ardal neu leol benodi cynrychiolwyr rhanbarthol Cytûn os bydd angen.

(iv) Enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Enwebiadau:

Mae Susan Greaves (CC) yn dod i ddiwedd ei chyfnod o wasanaeth ar y pwyllgor enwebiadau 31.12.2010. Rydym yn gofyn i Dorothy Bell a Stevie Krayer ddod ag enw Cyfaill i wasanaethu.

(v) **Pwyllgor Enwebiadau Canolog**. Mae ffurflenni gwybodaeth am wasanaethu wedi'u dosbarthu heddiw

2010.27 Rhestr gysylltiadau

Ymhellach i gofnod 2010.11, mae ein swyddog gweinyddol wedi adrodd ar y posibilrwydd o gynhyrchu llyfr cysylltiadau i gynnwys yr holl Gyfeillion sy'n byw yng Nghymru.

Rydym wedi cysylltu hyn â defnyddio ein holl adnoddau'n effeithiol. A yw'n well defnyddio un rhestr i Gymru, neu ddefnyddio'r rheini sydd eisoes yn cael eu cynhyrchu gan gyfarfodydd ardal? Mae bob amser angen diweddaru beth bynnag a wneir gennym gyda data a gesglir yn lleol.

Ers ein cyfarfod diwethaf rydym hefyd wedi derbyn cofnod gan gyfarfod ardal Canolbarth Cymru sy'n awgrymu y gallai fod yn fwy cost-effeithiol dosbarthu rhestrau'r cyfarfodydd ardal dan sylw i'r rheini sydd eu hangen. Gallai'r llyfrau gael eu sganio i greu fersiwn dalennau rhydd i'r rheini sydd ei hangen.
Mae angen i ni gynnwys y rheini ar y Gororau sy'n rhan o gymuned Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru – i gyfarfodydd ardal Cilgwri a Chaer, Caerwrangon a Swydd Amwythig, Gororau'r De a Swydd Gaerloyw. Gallwn ddefnyddio Jules Montgomery, y swyddog gweinyddol, fel canolbwynt cyfathrebu ar gyfer yr wybodaeth ddiweddaraf.

Byddai o fudd pe bai'r rheini sy'n cynhyrchu'r gwahanol lyfrau'n cwrdd â'i gilydd i gytuno ar weithdrefnau cyffredin. Rydym yn gofyn i Julia Aspden drefnu hyn.

Rydym yn cytuno y dylai hyn gael ei drafod ymhellach gan y cyfarfod â chlercod cyfarfodydd ardal a chlercod ymddiriedolwyr 12 Hydref.

2010.28 *Walking the talk* – beth y gallwn ei wneud yn ymarferol i fyw'n gynaliadwy. (Cytûn)

Mae Liza Brown, Tom Brown, Liz Butler a Dave Butler wedi ein hagor i ystyried ein ffyrdd personol o fyw a'r dewisiadau a wneir gennym i fyw'n fwy cynaliadwy.

Sut y gallwn fod yn ffyddlon i'n credoau fel Crynwyr - i fod yn rhan o'r newid rydym yn chwilio amdano? A allwn fod yn ffyddiog y bydd ffordd yn ymagor os byddwn yn dilyn ein dirnadaeth? Os mai cariad yw'r symudiad cyntaf, efallai na allwn wybod y pethau hyn yn unig, wedi'n hysgogi gan euogrwydd neu ofn, ond gallwn eu dal yn ein calonnau fel y medrwn glywed sŵn y ddaear yn llefain a bod yn fwy ymwybodol o'n hetifeddiaeth i'r oesoedd a ddêl? Mae angen ein cariad ar y ddaear.

A allwn ni, fel a ddywedodd George Fox: gerdded yn siriol ar draws y byd?

Rydym wedi archwilio'r pwnc trwy sesiwn 'Hawl i Holi' a ddatgelodd agweddau tuag at ffyrdd personol o fyw. Buom yn gweithio mewn grwpiau bach i gynhyrchu 'Cynghorion ac Ymholiadau' am y dewisiadau a wneir gennym. Cafodd y rheini eu rhannu yn ein haddoli cloi ac fe'u dosberthir gyda'r cofnodion ar gyfer myfyrio pellach yn unigol ac mewn cyfarfodydd.

Deborah Rowlands
Julia Aspden Cyd-glercod

Cynghorion ac ymholiadau ynglŷn â Chynaliadwyedd – wedi'u llunio yng Nghyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a gynhaliwyd yn y Drenewydd 26.6.10 (gweler cofnod 2010.28)

Ynni

1. A ydych yn lleihau'r ynni a ddefnyddir gennych cymaint ag sy'n bosibl, o fewn cyfyngiadau'ch amgylchiadau personol?

2. A ydych wedi ystyried effaith eich defnydd ynni ar y blaned?

Bwyd

1. A ydych yn ymwybodol o effaith y bwyd rydych yn ei fwyta ar yr amgylchedd a'i ôl troed carbon, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir wrth ei gynhyrchu?

2. Ystyriwch a fyddwch yn defnyddio'r holl eitemau y byddwch yn eu prynu

Arian

1. A ydych yn ystyried sut y defnyddir eich arian eich hun? Mae hyn yn cynnwys nid yn unig buddsoddi personol a rhoi i elusennau ond sut y defnyddir arian a ddelir yn eich enw; er enghraifft, fel Crynwyr, sut y mae cyfarfodydd lleol, ardal a blynyddol yn buddsoddi eu harian?

2. Sut y byddwn yn gwarchod aelodau gwannaf cymdeithas, os, neu pan fydd y system ariannol yn ymddatod?

Teithio

1. A allwch deithio i gyfarfodydd mewn ffordd arall yn hytrach na gyrru ar eich pen eich hun?

2. A ydych yn ystyried y gost i'r ddaear yn ogystal â gwerthoedd eraill wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â thrafnidiaeth?

Nwyddau nad ydynt yn fwyd

1. A yw'ch ffordd bresennol o fyw o fewn fframwaith sy'n gydnaws â chreadigaeth Duw? Gofalwch eich bod yn cysylltu'ch holl benderfyniadau am brynu pethau â'r fframwaith hwn.

2. A ydych yn ystyried, cyn prynu cynhyrchion, beth sydd ei wir ~~ei~~ angen arnoch a pham? A ydych yn gofyn y cwestiynau iawn fel y bydd yr hyn a brynir gennych yn para, yn addas i'ch anghenion ac yn cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd? A ydych yn defnyddio cynhyrchion yn gyfrifol?